OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 1349

# Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021

## RHAN 2

### Swyddogion gweithrediaeth

*Prif weithredwr*

**Dyletswydd i benodi prif weithredwr**

**3.**—(1) Rhaid i gyd-bwyllgor corfforedig benodi prif weithredwr.

(2) Rhaid i brif weithredwr cyd-bwyllgor corfforedig—

(a) adolygu'n barhaus bob un o'r materion a bennir ym mharagraff (3), a

(b) pan fo'r prif weithredwr yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny, gwneud adroddiad i'r cyd-bwyllgor corfforedig yn nodi cynigion y prif weithredwr mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r materion hynny.

(3) Y materion yw—

(a) y modd y cydgysylltir sut y mae'r cyd-bwyllgor corfforedig yn arfer ei wahanol swyddogaethau,

(b) trefniadau'r cyd-bwyllgor corfforedig mewn perthynas ag—

(i) cynllunio ariannol,

(ii) rheoli asedau, a

(iii) rheoli risg,

(c) nifer a graddau'r staff sy'n ofynnol gan y cyd-bwyllgor corfforedig er mwyn arfer ei swyddogaethau,

(d) trefniadaeth staff y cyd-bwyllgor corfforedig,

(e) penodi staff y cyd-bwyllgor corfforedig, ac

(f) y trefniadau ar gyfer rheoli staff y cyd-bwyllgor corfforedig, gan gynnwys unrhyw drefniadau ar gyfer hyfforddi a datblygu.

(4) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl llunio adroddiad at ddibenion paragraff (2)(b), rhaid i'r prif weithredwr drefnu bod yr adroddiad yn cael ei anfon at bob aelod o'r cyd-bwyllgor corfforedig.

(5) Rhaid i'r cyd-bwyllgor corfforedig ystyried adroddiad a wnaed o dan baragraff (2)(b) mewn cyfarfod a gynhelir yn ddim hwyrach na thri mis ar ôl i gopïau o'r adroddiad gael eu hanfon at yr aelodau am y tro cyntaf.

(6) Rhaid i gyd-bwyllgor corfforedig ddarparu i'w brif weithredwr y staff, yr adeiladau neu'r ystafelloedd a'r adnoddau eraill hynny sydd, ym marn y prif weithredwr, yn ddigonol i alluogi cyflawni dyletswyddau'r prif weithredwr o dan y rheoliad hwn.

(7) Nid yw rheoliad 13 (trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau) yn gymwys i'r ddyletswydd a osodir ar gyd-bwyllgor corfforedig gan baragraff (5).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 3 mewn grym ar 3.12.2021, gweler **rhl. 1(2)**

**Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**

**4.**—(1) Ym Mesur 2011—

(a) wrth gymhwyso adran 142 (swyddogaethau sy'n ymwneud â thaliadau i aelodau) i gyd-bwyllgor corfforedig, mae'r cyfeiriad at 1 Ebrill 2012 i'w ddarllen fel cyfeiriad at 1 Ebrill 2022;

(b) yn adran 143A(7) (swyddogaethau sy'n ymwneud â chydnabyddiaeth ariannol prif weithredwyr), yn y diffiniad o "prif weithredwr", ar ôl "Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021" mewnosoder "neu brif weithredwr a benodir gan gyd-bwyllgor corfforedig";

(c) yn adran 144 (awdurdodau perthnasol, aelodau etc.)—

(i) yn is-adran (2), o flaen paragraff (e) mewnosoder—

"(db) cyd-bwyllgor corfforedig;";

(ii) yn is-adran (4) hepgorer "ac" ar ôl paragraff (b);

(iii) yn is-adran (4), ar ôl paragraff (c) mewnosoder ", a" ac yna mewnosoder—

"(d) person sy'n aelod o is-bwyllgor i gyd-bwyllgor corfforedig a chanddo hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu gan yr is-bwyllgor hwnnw;";

(iv) yn is-adran (5), ar ôl "awdurdod perthnasol" mewnosoder "heblaw cyd-bwyllgor corfforedig";

(v) yn is-adran (8), yn lle "(2)(e)" rhodder "(2)(db) neu (e)".

(2) At ddibenion y rheoliad hwn (ac felly wrth estyn adran 143A o Fesur 2011 i awdurdod perthnasol sy'n gyd-bwyllgor corfforedig), hyd nes y daw'r diwygiadau a wneir i adran 143A o Fesur 2011 gan baragraff 15 o Atodlen 5 i Ddeddf 2021 i rym, mae adran 143A i'w darllen fel pe bai'r diwygiadau hynny mewn grym.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 4 mewn grym ar 3.12.2021, gweler **rhl. 1(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 03/12/2021.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Prif weithredwr.